# Llenwi ffurflenni a thrafodion digidol ar-lein yn ddiogel

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â llenwi ffurflenni a thrafodion digidol ar-lein. Mae hyn yn cynnwys llywio, llenwi a chyflwyno ffurflenni ar-lein a ddefnyddir i fewnbynnu gwybodaeth at ystod o ddibenion. Mae'n cynnwys cofrestru ar gyfer gwasanaethau a chyflwyno data drwy ddefnyddio ffurflenni cais. Mae hefyd yn cynnwys dilysu data i wirio bod y ffurflenni data a gyflwynir o'r math cywir ac yn gywir. Mae hefyd yn cynnwys llenwi ffurflen a'i chyflwyno yn rhan o drafodiad ar-lein, gan gydymffurfio â gwiriadau dilysu, a darparu taliadau ar-lein drwy ddefnyddio systemau talu ar-lein. Mae'r safon hon ar gyfer y rhai y mae angen iddynt lenwi ffurflenni digidol ar-lein a thrafodion i ddiwallu eu hanghenion eu hunain neu yn rhan o'u dyletswyddau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Cytuno ar ofynion i lenwi ffurflenni, cofrestriadau a thrafodion ar-lein gyda rhanddeiliaid
2. Llenwi ffurflenni ar-lein yn gywir
3. Cadarnhau diogelwch safleoedd cofrestru a thalu ar-lein cyn cyflwyno data a phrosesu trafodion talu yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
4. Perfformio trafodion talu ar-lein yn ddiogel
5. Cyflwyno cyfeiriad gywir drwy ddefnyddio offer chwilio côd post sydd wedi'u mewnosod mewn ffurflenni ar-lein
6. Prosesu archebion arferol a thaliadau eraill yn ddiogel drwy ddefnyddio dull talu cymeradwy
7. Cofnodi manylion talu yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
8. Monitro negeseuon ebost sy'n cyrraedd i gadarnhau manylion archebion a thalu a derbynebau
9. Cadw derbynebau a anfonir ar ffurf atodiadau ebost mewn ffolderi penodol yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y derminoleg a'r cysyniadau sy'n ymwneud â ffurflenni a thrafodion ar-lein
2. Sut i nodi'r gwasanaethau digidol sydd eu hangen i gynllunio ffurflenni ar-lein ac anghenion trafodion
3. Y botymau safonol, y rheolyddion a meysydd mewnbynnu data a ddefnyddir mewn ffurflenni ar-lein
4. Sut i fewnbynnu testun a data rhifol gan ddefnyddio ffurflenni ar-lein
5. Sut i ddefnyddio offer chwilio côd post cyfeiriadau
6. Beth yw ystyr dilysu data
7. Y gwiriadau dilysu safonol y gellir eu cynnal wrth fewnbynnu data ar-lein
8. Beth yw ystyr dilysu aml-ffactor
9. Dulliau safonol y diwydiant a ddefnyddir i gymhwyso dilysu aml-ffactor
10. Sut i nodi gwefannau talu diogel
11. Sut i wneud taliad ar-lein drwy ddefnyddio dulliau talu safonol
12. Sut i gadw derbynebau ac atodiadau ebost eraill mewn ffolderi
13. Yr angen i gadw cofnodion cywir o daliadau a wnaed a chadarnhad o archebion a derbynebau a dderbyniwyd
14. Sut i groeswirio ebyst yn erbyn archebion a thaliadau i ddod o hyd i dderbynebau

Llenwi ffurflenni a thrafodion digidol ar-lein yn ddiogel

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | e-skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ODAG Consultants Ltd. |
| **RCU gwreiddiol** | TECHDUDT1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | TGCh i ddefnyddwyr |
| **Cyfres/Set** | Defnyddwyr TG |
| **Geiriau Allweddol** | trafodion ar-lein |